**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-763
Ein cyf/Our ref VG/01397/17

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk

6 Gorffennaf 2017

Annwyl David,

**Deiseb P-05-763 Diweddaru'r cyngor a roddir ynghylch strôc – B.E.F.A.S.T. – a helpu i achub bywydau a bywoliaethau.**

Rwy'n ysgrifennu yn ymateb i'r llythyr dyddiedig 22 Mai yn gofyn am fy marn ar y ddeiseb a ddaeth i law y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â diweddaru'r cyngor a roddir ynghylch strôc i B.E.F.A.S.T.

Rwyf wedi cyfeirio eich llythyr i'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc i gael cyngor. Cyfarfu'r Grŵp ar 15 Mehefin ac mae wedi cynghori i glinigwyr Strôc yng Nghymru ddilyn arfer gorau yn unol â chanllawiau NICE, sydd ar hyn o bryd yn argymell defnyddio'r prawf Wyneb Braich Lleferydd Amser (FAST). Mae'n ymddangos mai tystiolaeth gyfyngedig sydd i'w chael i gefnogi B.E.F.A.S.T. ac felly, ni all y Grŵp gymeradwyo i'w ddefnyddio yng Nghymru ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, bydd y Grŵp yn parhau i fonitro'r defnydd o'r prawf a phe byddai'r sefyllfa'n newid bydd, wrth gwrs, yn hapus i ailystyried.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.